Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 286 (Cy. 58)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

### NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 71 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 ("Deddf 2024") sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth at ddibenion unrhyw ddarpariaeth yn Neddf 2024, o ganlyniad i unrhyw ddarpariaeth ynddi, neu er mwyn rhoi effaith lawn i unrhyw ddarpariaeth ynddi.

Mae Deddf 2024 yn diddymu Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ("y Panel") ac yn darparu i swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Panel gael eu cyflawni gan Gomisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru ("y Comisiwn").

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i is-ddeddfwriaeth o ganlyniad i adran 56 o Ddeddf 2024, sy'n diddymu'r Panel, ac adran 57 o Ddeddf 2024, sy'n gosod swyddogaethau a gyflawnwyd yn flaenorol gan y Panel ar y Comisiwn.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2025 Rhif 286 (Cy. 58)

# LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

## Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025

*Gwnaed* *6 Mawrth 2025*

*Gosodwyd gerbron Senedd Cymru* *7 Mawrth 2025*

*Yn dod i rym yn unol â rheoliad 1(2) a (3)*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 71(1)(a) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**).

**Enwi a dod i rym**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (Diwygiadau Canlyniadol) 2025.

(2) Daw rheoliadau 1, 2, 3 a 4 i rym ar 1 Ebrill 2025.

(3) Daw rheoliadau 5 a 6 i rym ar 1 Ebrill 2026.

**Gorchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Awdurdodau Cyhoeddus Ychwanegol) 2010**

**2.** Yn Rhan 1 (cofnodion a fewnosodir gydag effaith o 1 Hydref 2010) o'r Atodlen i Orchymyn Rhyddid Gwybodaeth (Awdurdodau Cyhoeddus Ychwanegol) 2010(**2**), hepgorer "The Independent Remuneration Panel for Wales".

(**1**) 2024 dsc 5.
(**2**) O.S. 2010/937, y mae diwygiadau iddo nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

**Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019**

**3.** Yn Rheoliadau Etholiadau (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2019(**1**), hepgorer rheoliad 2 (diwygio Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011) a'r pennawd o'i flaen.

**Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021**

**4.** Yn Rheoliadau Cyd-bwyllgorau Corfforedig (Cyffredinol) (Rhif 2) (Cymru) 2021(**2**), hepgorer rheoliad 4 (Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol) a'r pennawd o'i flaen.

**Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005**

**5.**—(1) Mae Rheoliadau Addysg (Trefniadau Apelau Derbyn) (Cymru) 2005(**3**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn rheoliad 2(1) (dehongli)—

(a) hepgorer "ystyr "Mesur 2011" ("*the 2011 Measure*") yw Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011;";

(b) yn y lleoedd priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder—

"ystyr "y Comisiwn" ("*the Commission*") yw Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru;";

"ystyr "Deddf 2013" ("*the 2013 Act*") yw Deddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013;".

(3) Yn rheoliad 7(3) (talu lwfansau), yn lle "Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a ddyroddir o dan Ran 8 o Fesur 2011 (aelodau: taliadau a phensiynau)" rhodder "y Comisiwn a ddyroddir o dan Ran 5A o Ddeddf 2013 (swyddogaethau sy'n ymwneud â thaliadau a phensiynau)(**4**)".

**Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008**

**6.** Ym mharagraff 12(2)(b)(iv) (buddiannau sy'n rhagfarnu) o'r cod enghreifftiol yn yr Atodlen i

(**1**) O.S. 2019/115 (Cy. 29).
(**2**) O.S. 2021/1349 (Cy. 348).
(**3**) O.S. 2005/1398 (Cy. 112) a ddiwygiwyd gan O.S. 2013/2535 (Cy. 250); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.
(**4**) Mewnosodwyd Rhan 5A yn Neddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013 (dccc 4) gan adran 57 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5). Cafodd adran 57 o Ddeddf 2024 ei dwyn i rym ar 1 Ebrill 2025 gan erthygl 3 o O.S. 2024/1337 (Cy. 226).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Orchymyn Awdurdodau Lleol (Cod Ymddygiad Enghreifftiol) (Cymru) 2008(**1**), ar ôl "Rhan 8 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011," mewnosoder "Rhan 5A o Ddeddf Comisiwn Democratiaeth a Ffiniau Cymru etc. 2013,".

*Jayne Bryant*
Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
6 Mawrth 2025

(**1**) O.S. 2008/788 (Cy. 82) a ddiwygiwyd gan O.S. 2016/84 (Cy. 38); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.